## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan bwerau a roddir i Weinidogion Cymru gan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) ("y Ddeddf"). Maent yn diwygio gofynion penodol a osodir ar ddarparwyr gofal cymdeithasol cofrestredig o dan y Ddeddf, ac maent wedi eu gwneud mewn ymateb i ledaeniad coronafeirws syndrom anadlol acíwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) yng Nghymru.

Mae Rhan 1 o'r Ddeddf yn nodi'r gwasanaethau gofal cymdeithasol y mae'r Ddeddf yn gymwys iddynt, ac yn eu diffinio fel "gwasanaethau rheoleiddiedig". Mae adran 2(3) yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i ddarparu mewn rheoliadau nad yw gwasanaethau penodol yn "gwasanaethau rheoleiddiedig".

Mae adran 27 o'r Ddeddf yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru i osod, mewn rheoliadau, ofynion ar ddarparwyr gwasanaethau mewn perthynas #â'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Mae Gweinidogion Cymru wedi arfer y pŵer hwn i wneud Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 (O.S. 2017/1264 (Cy. 295)) ("y Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig").

Mae **rheoliadau 2 i 7** yn diwygio'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Mae **rheoliad 4** wedi ei wneud o dan adran 2(3) o'r Ddeddf ac yn diwygio rheoliad 2 (gwasanaethau cartrefi gofal) o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig. Effaith y diwygiad yw nad yw'r ddarpariaeth o lety ynghyd â nyrsio neu ofal, pan fo'r llety a'r nyrsio neu'r gofal wedi eu darparu i oedolion ac y mae eu hangen o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, yn "gwasanaeth cartref gofal" ac felly nad yw'n "gwasanaeth rheoleiddiedig" o dan y Ddeddf. Nid yw'r eithriad hwn ond yn gymwys pan fo'r gwasanaeth wedi ei ddarparu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol, neu wedi ei gomisiynu gan awdurdod lleol neu Fwrdd Iechyd Lleol ac wedi ei ddarparu naill ai gan ddarparwr gwasanaeth sydd eisoes wedi ei gofrestru o dan y Ddeddf ac sy'n darparu gwasanaeth cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf i oedolion, neu gan ddarparwyr cartrefi gofal yn Lloegr sydd eisoes wedi eu cofrestru â'r Comisiwn Ansawdd Gofal. Ym mhob achos, rhaid i Weinidogion Cymru gael eu hysbysu ymlaen llaw am y trefniadau.

Mae **rheoliad 5** hefyd wedi ei wneud o dan adran 2(3) o'r Ddeddf. Mae'n gwneud diwygiad tebyg i reoliad 4, ond mewn perthynas â darparu gofal a chymorth ar gyfer oedolion.

Mae **rheoliad 6** wedi ei wneud o dan adran 27(1) o'r Ddeddf ac yn diwygio rheoliad 35 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (addasrwydd staff). Mae rheoliad 35(2)(d) o'r Rheoliadau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i berson sy'n gweithio ar gyfer darparwr gwasanaeth rheoleiddiedig roi gwybodaeth lawn a boddhaol mewn cysylltiad â materion penodol i'r darparwr. Effaith y diwygiad yw bod y gofyniad yn rheoliad 35(2)(d), o dan rai amgylchiadau, yn cael ei drin fel pe bai wedi ei fodloni hyd yn oed os nad yw person sy'n gweithio ar gyfer darparwr gwasanaeth cartref gofal yn gyfan gwbl neu'n bennaf ar gyfer oedolion neu wasanaeth cymorth cartref i oedolion yn darparu gwybodaeth lawn a boddhaol am rai o'r materion hynny. Os na all y person yn rhesymol ddarparu gwybodaeth lawn a boddhaol o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws, bydd y gofyniad yn cael ei drin fel pe bai wedi ei fodloni os yw'r person yn darparu gwybodaeth mor llawn a boddhaol ag y bo'n rhesymol ymarferol ac os yw'r wybodaeth ar gael i'r rheoleiddiwr gwasanaethau edrych arni.

Mae **rheoliad 7** hefyd wedi ei wneud o dan adran 27(1) o'r Ddeddf. Mae'n diwygio rheoliad 45 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (ystafelloedd meddiannaeth sengl ac ystafelloedd a rennir – oedolion). Mae rheoliad 45 yn darparu, yn ddarostyngedig i eithriadau cyfyngedig, fod rhaid i ddarparwr gwasanaeth cartref gofal sicrhau bod pob oedolyn yn cael ei letya mewn ystafelloedd

sengl. Mae'r diwygiad yn ehangu'r eithriadau i ganiatáu, o dan amgylchiadau cyfyngedig, i oedolion gael eu lletya mewn ystafelloedd a rennir pan fo angen darparu'r llety o ganlyniad i ledaeniad y coronafeirws.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.